I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC - Rhif 21 - 59

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Gorffennaf 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 19(1), 203(9) a 204(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Medi 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i—

(a) pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru; a

(b) pob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

### Cyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

**2.** Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth GIG arfer ei swyddogaethau yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 16 Gorffennaf 2021 ac a ddaeth i rym ar 1 Medi 2021.

(**1**) 2006 p. 42.

*Lynne Neagle*
Llofnodwyd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
26 Gorffennaf 2021